Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 01.10.2021

- Mae hwn yn fersiwn Gymraeg o ddau ebost sydd yn cael eu gyrru allan, mae fersiwn Saesneg yn dilyn – gellir gweld holl fwletinau sydd wedi eu gyrru ar: https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19

- This is the Welsh version of two emails sent out, the English version will follow – all sent bulletins can be accessed on: https://www.gwynedd.llyw.cymru/businesscovid19

# COVID-19: Cynllun Cadw Swyddi (CJRS) wedi dod i ben

Daeth y Cynllun Cadw Swyddi (CJRS) i ben ar 30 Medi 2021. Rhaid cyflwyno hawliadau ar gyfer mis Medi erbyn 14 Hydref 2021 a rhaid gwneud unrhyw newidiadau erbyn 28 Hydref 2021. Am y wybodaeth ddiweddaraf, gallwch:

- Fynychu un o weminarau byw CThEM, ewch i: https://bit.ly/2XTWPRX

- Wylio fersiwn wedi'i recordio ar sianel YouTube CThEM, ewch i: https://www.youtube.com/watch?v=YGVFcsOTWDE

## CYFLOGAETH: Llofnodwch yr Addewid Cydraddoldeb

Mae'r Addewid Cydraddoldeb yn helpu busnesau Cymru i gymryd camau rhagweithiol at greu gweithle cynhwysfawr, teg ac amrywiol, ac arddangos eu hymrwymiad i'w gweithwyr a'r gymuned ehangach, tra'n cynnig cynnyrch a gwasanaethau hygyrch i bawb. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://businesswales.gov.wales/cy/addewid-cydraddoldeb

## AMGYLCHEDD: Cystadleuaeth 'Heroes of Net Zero'

Mae'r gystadleuaeth 'Heroes of Net Zero' am ddod o hyd i fusnesau bach gorau'r DU sy'n cymryd camau arloesol i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr. Gwahoddir yr ymgeiswyr gorau i fynychu uwchgynhadledd newid hinsawdd ryngwladol COP26 yn Glasgow ar 2 Tachwedd 2021, lle cyhoeddir yr enillwyr, fydd yn derbyn pecyn gwobr unigryw gwerth £4,500. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://businesswales.gov.wales/cy/newyddion-blogiau/newyddion/cystadleuaeth-heroes-net-zero

## BREXIT: Diweddaraf

- Mae Llywodraeth y DU wedi nodi amserlen newydd ar gyflwyno rheolaethau mewnforio llawn ar gyfer nwyddau o'r UE i'r DU. Bydd datganiadau a rheolaethau tollau llawn yn cael eu cyflwyno ar 1 Ionawr 2022 fel y cyhoeddwyd yn flaenorol, er na fydd angen datganiadau diogelwch tan 1

Gorffennaf 2022. Mwy o fanylion ar:
https://bit.ly/3ie6tGy

- Mae gweminarau ar gyfer allforwyr cynhyrchion o darddiad anifeiliaid (POAO) fel cig, llaeth a physgod, anifeiliaid byw, planhigion a chynhyrchion planhigion ar gael ar:
https://bit.ly/3io8YX0

## LLETYGARWCH: PCA (Dyfarnwr Cod Tafarndai) yn cyhoeddi taflen ffeithiau ar hawliau Côd

Mae taflen ffeithiau ddiweddaraf PCA yn helpu'r rhai sy'n ystyried ymgymryd â chytundeb newydd tafarn wedi'i glymu, gyda chwmni tafarn rheoledig, i ddeall eu hawliau Côd, ewch i:

https://bit.ly/3m7Fk9o

## TECH: Gweithdai 'Dod yn Dref SMART'

Nod prosiect Trefi SMART Llywodraeth Cymru yw helpu busnesau canol trefi i fanteisio ar dechnoleg newydd sy'n casglu gwybodaeth am sut a phryd y mae cwsmeriaid yn ymweld â'r stryd fawr. Mae systemau Tref SMART eisoes ar waith mewn nifer o drefi a phentrefi Gwynedd gyda mwy ar y ffordd. Bydd gweithdai 'Dod yn Dref SMART' yn cael eu cynnal ym mis Hydref. Am fwy o wybodaeth ac i gofrestru, ewch i:

- Sesiynau Cymraeg – 8 & 22 Hydref 2021, 3:00pm – 5:00pm:
https://bit.ly/3uheQGa

- Sesiynau Saesneg:
https://bit.ly/3ufWrcI

# CYSTADLEUAETH: A yw ymateb eich sefydliad i Covid-19 yn haeddu gwobr?

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru a Llywodraeth Cymru eisiau hyrwyddo a dathlu datblygiadau arloesol gan gyflogwyr ers pandemig Covid-19, yn y Digwyddiad Canmoliaeth Covid-19 Cymru Iach ar Waith, a gynhelir ar 8 Rhagfyr 2021. Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw dydd Gwener 15 Hydref 2021. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://freshwater.eventscase.com/cy/HWWCommendationEvent

---

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i'w gael o:

## Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

## Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

## Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
https://twitter.com/_busnescymru

## Busnes@llandrillomenai

https://www.facebook.com/BusnesatLlandrilloMenai/posts
https://twitter.com/busnesLLM

## FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

## Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

---

Os oes gennych gwestiwn neu angen cyngor ebostiwch busnes@gwynedd.llyw.cymru